Tom Schuller • David Watson

Dysgu Gydol Oes

Ymchwiliad i'r Dyfodol ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Crynodeb

©2009 Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus Oedolion (Lloegr a Chymru)/
National Institute of Adult Continuing Education (England and Wales)
21 De Montfort Street
Caerlŷr/Leicester
LE1 7GE

Elusen gofrestredig rhif 2603322
Cwmni cofrestredig rhif 1002775

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo neu drawsyrru'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded yn caniatáu copïo a roddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

Mae gan NIACE gylch gorchwyl eang i hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes ar gyfer oedolion. Mae NIACE yn gweithio i ddatblygu mwy o gyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant, yn neilltuol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad rhwydd oherwydd dosbarth, rhyw, oedran, hil, iaith a diwylliant, anawsterau dysgu neu anableddau, neu adnoddau ariannol annigonol.

Mae NIACE ar gael ar-lein yn **www.niace.org.uk**

Cynlluniwyd a chysodwyd gan Creative by Design

Dyluniad clawr gan Book Production Services

Argraffwyd a rhwymwyd yn y Deyrnas Unedig gan Flexpress Cyf

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Dysgu Gydol Oes: ein cynigion	3
Beth sydd o'i le gyda'r system bresennol?	4
Gwariant a chyfranogiad mewn dysgu	4
Deg argymhelliad	6
Comisiynwyr yr Ymchwiliad	10
Ysgrifenyddiaeth yr Ymchwiliad	10
Papurau atodol yr Ymchwiliad	11

Dysgu Gydol Oes
Crynodeb

Cyflwyniad

Dechreuwn gyda'r gosodiad fod yr ***hawl i ddysgu drwy gydol oes yn hawl dynol.*** Ein gweledigaeth yw cymdeithas lle mae dysgu yn chwarae ei rôl lawn mewn twf a rhyddfreiniad personol, ffyniant, cydlyniad a chyfrifoldeb lleol a byd-eang. Tasg yr Ymchwiliad fu ffurfio strategaeth tymor-hwy i gyflawni'r weledigaeth hon. Seiliwn y gwaith ar argymhellion cadarn ar wahanol lefelau. Nid ydym wedi cynnig glasbrint anhyblyg. Ein nod yw gosod agenda ar gyfer dysgu gydol oes a fydd yn gwneud synnwyr am y chwarter canrif nesaf.

Drwy 'gydol oes' yn yr adroddiad hwn golygwn o'r crud i'r bedd: mae trafodaethau'r Comisiwn wedi cynnwys y goblygiadau ar gyfer addysg plentyndod cynnar ac ar gyfer addysg ysgol. Fodd bynnag, mae ein prif ffocws ar addysg oedolion ac ar oedolion yn dychwelyd i ddysgu. Gall dysgu ddigwydd mewn sefydliadau addysg neu hyfforddiant, y gweithle (ar neu oddi ar y swydd), y teulu, neu leoliadau diwylliannol a chymunedol. Defnyddiwn 'dysgu' i gyfeirio at bob math o addysg ffurfiol a hyfforddiant (p'un ai oes ganddynt ardystiad ai peidio). Rydym hefyd yn cynnwys dulliau anffurfiol o ddysgu i ryw raddau, cyn belled â bod rhywfaint o drefniadaeth a bwriad iddynt. Felly ein diffiniad bras yw:

> *Mae dysgu gydol oes yn cynnwys pobl o bob oedran yn dysgu mewn amrywiaeth o gyd-destunau – mewn sefydliadau addysgol, yn y gwaith, adref a thrwy weithgareddau hamdden. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar oedolion yn dychwelyd i ddysgu trefnus yn hytrach nag ar gyfnod dechreuol o addysg neu ar ddysgu wrth fynd heibio.*

Bydd gwaith yr Ymchwiliad yn parhau. Mae'r syniadau a'r cynigion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a phapurau atodol yr Ymchwiliad yn bwydo i raglen waith NIACE ei hunan, ac i gydweithredu gydag ystod eang o gyrff eraill. I ymuno â'r drafodaeth, cysylltwch â ni yn lifelonglearninginquiry@niace.org.uk os gwelwch yn dda.

Yr Athro Tom Schuller
Cyfarwyddwr
Ymchwiliad i Ddysgu Gydol Oes

Syr David Watson
Cadeirydd
Comisiynwyr Ymchwiliad i Ddysgu Gydol Oes

Sefydlwyd yr Ymchwiliad i Ddyfodol Dysgu Gydol Oes yn 2007 fel Ymchwiliad annibynnol a noddwyd gan NIACE (Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus Oedolion). Yn ystod yr Ymchwiliad, daeth arbenigwyr o'r llywodraeth, busnes, academia, undebau llafur, gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr, y trydydd sector a dysgwyr ynghyd gyda Chomisiynwyr yr Ymchwiliad i ddynodi consensws eang ar gyfer dyfodol dysgu gydol oes yn y Deyrnas Unedig, a seiliwyd ar dros 250 o gyflwyniadau tystiolaeth.

Dysgu Gydol Oes yw prif adroddiad yr Ymchwiliad. Mae wedi ei nythu mewn tua 30 o bapurau atodol a gyhoeddwyd ar wefan yr Ymchwiliad: www.lifelonglearning.inquiry.org.uk.

Dysgu Gydol Oes: ein cynigion

Mae system bresennol y Deyrnas Unedig o ddysgu gydol oes wedi methu ymateb i her ddemograffig sylweddol cymdeithas sy'n heneiddio, ac i amrywiaeth mewn patrymau cyflogaeth wrth i bobl ifanc gymryd mwy o amser i setlo i swyddi a phobl hŷn yn cymryd mwy o amser i adael gwaith.

Gwnawn ddeg argymhelliad am strategaeth dysgu gydol oes a fyddai'n gwneud y Deyrnas Unedig yn arloesydd gwirioneddol yn y maes hwn. Mae manylion ar dudalennau 6 i 9.

1. **Seilio polisi dysgu gydol oes ar fodel newydd o'r llwybr bywyd addysgol, gyda phedwar cyfnod allweddol (hyd at 25, 25–50, 50–75, 75+).**
   Dylai ein hymagwedd at ddysgu gydol oes ddelio'n llawer mwy cadarnhaol gyda dau dueddiad pwysig: cymdeithas sy'n heneiddio a newidiadau mewn patrymau o waith am dâl a gwaith di-dâl.

2. **Ailgydbwyso adnoddau'n deg ac yn synhwyrol ar draws gwahanol gyfnodau bywyd**
   Mae'r adnoddau cyhoeddus a phreifat a fuddsoddir mewn dysgu gydol oes yn gyfanswm o dros £50 biliwn; dylai eu dosbarthiad adlewyrchu barn gydlynol o'r newid yn y cyd-destun economaidd a chymdeithasol.

3. **Llunio cyfres o hawliau dysgu**
   Bydd fframwaith clir o hawliau dysgu yn ffactor allweddol wrth gryfhau dewis a chymhelliant i ddysgu.

4. **Hyrwyddo hyblygrwydd: system o gredydau ac annog dysgwyr rhan-amser**
   Mae angen cynnydd llawer cyflymach i weithredu system seiliedig ar gredydau, yn gwneud dysgu yn fwy hyblyg a hygyrch gyda chyllid yn cyfateb â hynny.

5. **Gwella ansawdd gwaith**
   Mae'r drafodaeth ar sgiliau wedi canolbwyntio gormod ar bwyslais ar gynyddu nifer sgiliau. Dylai fod mwy o ffocws ar sut y defnyddir sgiliau.

6. **Llunio fframwaith cwricwlwm ar gyfer galluoedd dinasyddion**
   Dylid creu fframwaith cyffredin o gyfleoedd dysgu a ddylai fod ar gael mewn unrhyw ardal benodol, gan roi rheolaeth i bobl dros eu bywydau eu hunain.

7. **Ehangu a chryfhau gallu'r gweithlu dysgu gydol oes**
   Dylai cefnogaeth gryfach fod ar gael i bawb sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant, mewn gwahanol ddulliau.

8. **Adfywio cyfrifoldeb lleol ...**
   Mae'r system bresennol yn Lloegr wedi dod yn or-ganoledig, heb ddigon o gysylltiad gydag anghenion lleol a rhanbarthol. Dylem adfer bywyd a phŵer i lefelau lleol.

9. **... o fewn fframweithiau cenedlaethol**
   Dylai fod peirianwaith effeithiol ar gyfer creu strategaeth dysgu gydol oes gydlynol ar draws y Deyrnas Unedig, ac o fewn pedair cenedl y Deyrnas Unedig.

10. **Gwneud y system yn ddeallus**
    Dim ond gyda gwybodaeth a gwerthusiad sy'n gyson, eang a thrwyadl, ac sy'n agor trafodaeth am y goblygiadau, y bydd y system yn ffynnu.

Beth sydd o'i le gyda'r system bresennol?

Mae gan system y Deyrnas Unedig lawer o nodweddion cryf ar hyn o bryd. O gymharu gyda'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop, mae gennym gyfraddau cyfranogiad uchel mewn addysg a hyfforddiant a lefelau eithaf uchel o hyblygrwydd mewn addysg ffurfiol. Roedd ysbryd y drafodaeth yn ystod yr Ymchwiliad yn hollol optimistaidd a chadarnhaol. Fodd bynnag, fe wnaethom ddynodi sawl rhwystr systemig i ddatblygu strategaeth tymor-hwy ar gyfer dysgu gydol oes.

- Nid yw addysg ddechreuol yn gwasanaethu fel sylfaen gadarn ar gyfer dysgu gydol oes.
- Yr her ddemograffig: mae cydbwysedd cyfle a chefnogaeth ar gyfer dysgu drwy wahanol gyfnodau bywyd yn anghywir.
- Nid yw'r system yn cydnabod y trosiannu cynyddol amrywiol i ac o gyflogaeth.
- Mae anghydraddoldeb addysgol yn cronni dros lwybr bywyd i raddfa annerbyniol.
- Er yr holl rethreg, nid yw economi sgil-uchel ar y gorwel hyd yma.
- Mae canfod ffordd drwy'r system yn gymhleth ac afloyw ac yn golygu fod llawer yn colli eu cymhelliant.
- Mae llywodraethu'r system yn or-ganoledig,[1] heb fod yn ddigon sefydlog ac nid yw'n ymddiried digon yn ei gweithwyr proffesiynol.
- Seilwaith annigonol: nid yw adeiladau, technolegau a gwasanaethau wedi eu hintegreiddio'n dda.
- Nid yw'r 'system' yn ddigon deallus, h.y. nid yw'n creu ac yn defnyddio gwybodaeth gystal ag y medrai er mwyn arloesi a gwella.

Gwariant a chyfranogiad mewn dysgu

Cafodd dadansoddiad yr ymchwiliad o'r system bresennol ei seilio ar astudiaethau o wariant a chyfranogiad mewn dysgu gydol oes.

Gwariant

Am y tro cyntaf, mae ein ffigurau'n dod ynghyd â chyfanswm gwariant ar ddysgu ôl-orfodol, yn cynnwys gwariant gan y llywodraeth, cyflogwyr, y trydydd sector ac unigolion. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i wyro'n drwm tuag at bobl ifanc (18–25) a'r rhai sy'n llwyddo ar y dechrau.

- Mae cyfanswm gwariant ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn gyfanswm o tua £55 biliwn neu 3.9 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP).
- Gwerir tua £26 biliwn o'r cyfanswm o'r pwrs cyhoeddus; £20 biliwn ar hyfforddiant gan sefydliadau preifat a di-elw; £9 biliwn gan unigolion, yn cynnwys yr hunangyflogedig.
- Mae maint cymhorthdal cyhoeddus ar hyfforddiant galwedigaethol yn fawr; amcangyfrifwn fod y gwahanol ddulliau o gymorth treth yn gyfanswm o £3.7 biliwn.
- O'r £15 biliwn a werir ar ddarpariaeth addysgu a chefnogaeth myfyrwyr ar gyfer colegau a phrifysgolion, mae'r pwysiad yn drwm o blaid myfyrwyr ifanc, amser llawn.

[1] Mae hyn yn enghraifft o amrywiaeth o fewn y Deyrnas Unedig; mae'r sylw hwn yn wir ar gyfer Lloegr, ond nid am weinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig.

Ffigur 1: Gwariant ar gostau darpariaeth dysgu (£ biliwn), 2007–08



Nodyn: SGC – Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Ffynhonnell: IFLL

Cyfranogiad

Arolygwn dueddiadau cyfranogiad dros y deng mlynedd ddiwethaf. Y prif gasgliadau yw:

- Mae cysylltiad agos iawn rhwng cyfranogiad â dosbarth cymdeithasol. Po uchaf yw'ch sefyllfa economaidd-gymdeithasol, y mwyaf tebygol ydych o gymryd rhan mewn dysgu.
- Mae ymlyniad i waith hefyd yn ymddangos yn barhaus fel ffactor rymus. Mae bod hyd yn oed mewn swydd gradd isel yn rhoi gwell cyfle i chi o ddysgu na bod allan o'r farchnad lafur yn llwyr.
- Po ieuengaf ydych, y mwyaf tebygol ydych o gymryd rhan. Mae'r patrwm oedran yn un o ddirywiad uniongyrchol, llawer mwy nag y medrid ei esbonio gan unrhyw ddirywiad cysylltiedig ag oedran ar sail unigol.
- Mae bod ag anabledd yn rhwystr sylweddol i gyfranogiad.
- Mae lefelau cyfranogiad cyffredinol yn uchel yn ôl safonau Ewropeaidd, ond mae hyd cyfartalog addysg ffurfiol a hyfforddiant yn gymharol fyr.

Tabl 1: Cyfranogiad cyfredol neu ddiweddar mewn dysgu yn ôl oedran a rhyw, 2009

Oedran	18–24	25–49	50–74	75+
Cyfanswm sampl	64%	44%	30%	13%
Dynion	66%	41%	29%	12%
Menywod	62%	46%	30%	13%
Sylfaen a bwysolwyd	533	2,146	1,686	464

Ffynhonnell: Arolwg NIACE Cyfranogiad mewn Dysgu, 2009

Fe wnaethom gyfuno'r dadansoddiadau o wariant a chyfranogiad er mwyn datblygu darlun o sut y dosberthir adnoddau dros lwybr bywyd oedolyn. Gan ddefnyddio ein model pedwar cyfnod, rhoddodd hyn ddarlun cyffredinol o'r dosbarthiad presennol, a sut y medrai fod yn 2020.

Ffigur 2: a) Poblogaeth gyfredol a b) amcanestyniadau poblogaeth 2020 (miliynau); c) cyfanswm gwariant presennol ar ddarpariaeth a ch) ail-gydbwyso arfaethedig (£ miliwn).



Ffynhonnell: IFLL

Deg argymhelliad

Caiff manylion ein deg argymhelliad eu nodi islaw:

1. **Seilio polisi dysgu gydol oes ar fodel newydd o'r llwybr bywyd addysgol, gyda phedwar cyfnod allweddol (hyd at 25, 25–50, 50–75, 75+)**

   Nid yw ein hymagwedd bresennol at ddysgu gydol oes yn ymateb yn ddigonol i ddau dueddiad pwysig; cymdeithas sy'n heneiddio a newid mewn patrymau gweithgaredd am dâl a gweithgaredd di-dâl.

   - Mae golwg wirioneddol gydol oes yn golygu y defnyddid defnyddio *model pedwar cyfnod* – hyd at 25, 25–50, 50–75, 75+ – fel sylfaen ar gyfer *ymagwedd systemig gydlynol at ddysgu gydol oes.*
   - Dylid edrych ar bobl yn y cyfnod cyntaf (hyd at 25, ond yn cychwyn ar gyfer ein dibenion ni yn 18) fel cyfanwaith, gyda'i holl aelodau â hawliau i *ddysgu a datblygiad fel pobl ifanc.*
   - Dylai dysgu yn yr ail gyfnod (25–50) anelu at gynnal cynhyrchiant a ffyniant, ond hefyd ar adeiladu bywydau teulu cryf a hunaniaeth bersonol. Mae hyn yn rhan o *fosaig newydd o amser* gyda gwahanol gyfuniadau o waith am dâl a gwaith di-dâl ac amser dysgu.
   - Ar gyfer y rhai yn y trydydd cyfnod, dylid gwella llawer ar *gyfleoedd hyfforddiant ac addysg.* Dylai polisi, yn cynnwys polisi dysgu, drin 75 fel y terfyn oedran uchaf arferol ar gyfer gweithgaredd economaidd (heb fod yn gysylltiedig ag oedran pensiwn gwladol).
   - Mae dyfodiad y Pedwerydd Oed yn golygu fod angen brys i ddatblygu ymagwedd fwy priodol at y cynnig cwricwlwm i bobl hŷn.
   - Dylid dynodi a defnyddio 25, 50 a 75 fel y *pwyntiau trosiant allweddol,* pob un angen mynediad i gyngor ac arweiniad am gynllunio bywyd.

2. Ailgydbwyso adnoddau'n deg yn synhwyrol ar draws gwahanol gyfnodau bywyd

Mae adnoddau cyhoeddus a phreifat a fuddsoddir mewn dysgu gydol oes yn gyfanswm o dros £50 biliwn, ond nid yw eu dosbarthiad yn cyfateb ein cyd-destun economaidd a chymdeithasol newidiol.

- Rydym angen cytundeb cyhoeddus ar y meini prawf ar gyfer dyrannu adnoddau yn deg ac effeithiol ar gyfer dysgu ar draws llwybr bywyd.
- I ddechrau, cynigiwn nod eang iawn: symud o'r cymarebau dyrannu cyfredol o *86:11: 25.:0.5* ar draws y pedwar cyfnod a amlinellir uchod, i *80:15:4:1* erbyn 2020. Mae hyn yn golygu fwy neu lai *ddyblu'r gefnogaeth gymesurol i ddysgu yn y trydydd a'r pedwerydd cyfnod.*
- I wrthsefyll unrhyw deimlad ein bod yn ffafrio gwahanu ar sail oedran, argymhellwn gynyddu'r ymdrechion i gefnogi *dysgu teulu a phontio'r cenedlaethau.*

3. Llunio cyfres o hawliau dysgu

Bydd fframwaith clir o hawliau dysgu yn ffactor allweddol wrth gryfhau dewis a chymhelliant i ddysgu.

Rydym angen fframwaith clir a chynhwysfawr o hawliau, gyda dau gategori allweddol: hawliau cyffredinol, a hawliau 'trosiant' penodol.

a) *Hawliau cyffredinol:*

- Hawl *cyfreithiol* i fynediad am ddim i ddysgu i bawb sydd ei angen i sicrhau sgiliau sylfaenol h.y. llythrennedd a rhifedd, hyd at Lefel 1.
- Hawl *ariannol* i isafswm lefel o gymhwyster sydd ei angen i fedru chwarae rhan lawn yn cyfrannu at gymdeithas; mae hyn yn Lefel 2 ar hyn o bryd, ond bydd yn cynyddu a newid dros gyfnod.
- Dylai'r ddwy hawl ymestyn i bawb, beth bynnag eu hoedran.
- Hawl '*arfer da*' i absenoldeb dysgu fel budd galwedigaethol i'w ddatblygu'n hyblyg a thros gyfnod fel rhan o amodau cyflogaeth prif ffrwd.

b) *Hawliau 'trosiant' penodol*

Dylai'r rhain gael eu cynllunio i helpu pobl i ddefnyddio dysgu i wneud trosiant a fedrai fod yn anodd, er enghraifft gwarantu mynediad i ddysgu ar gyfer y rhai'n gadael carchar neu ofal sefydliad, symud rhwng ardaloedd neu wledydd, neu ymddeol. Medrir datblygu'r hawliau trosiant yn hyblyg dros gyfnod.

c) Dylai'r hawliau gael eu seilio ar *warantau seilwaith:* i fynediad cyffredinol i gyngor ac arweiniad (a ddatblygir ar hyn o bryd yn y gwasanaeth hybu oedolion a gyrfaoedd), ac i isafswm lefel o dechnoleg ddigidol (ar hyn o bryd yn fand eang ar 2Mbps, ond bydd hyn yn codi a newid).

ch) Dylid sianelu hawliau drwy *system genedlaethol o Gyfrifon Dysgu,* gan roi'r rheolaeth fwyaf i unigolion am sut y'u defnyddir. Dylai'r wladwriaeth sefydlu'r Cyfrifon Dysgu ar gyfer pobl sy'n cyrraedd eu pen-blwydd yn bump ar hugain. Dylid dyrannu hanner cant y cant o gyfraniad y cyhoedd i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plentyn i hyn.

4. Hyrwyddo hyblygrwydd: system o gredyd ac annog dysgwyr rhan-amser

Mae angen cynnydd cyflymach i weithredu system seiliedig ar gredydau ac i gefnogi pobl i gyfuno astudiaeth gyda gweithgareddau eraill.

- Dylem symud yn gyflym i weithredu system gydlynol o gredydau fel sylfaen ar gyfer trefnu dysgu ar ôl ysgol.
- Dylai'r cyllid ar gyfer dysgu (ffioedd a chymorth i fyfyrwyr) gael ei seilio ar y credydau hyn ac ni ddylai wahaniaethu yn erbyn darpariaeth ran-amser neu fyfyrwyr rhan-amser.
- Dylid cael mwy o degwch a chysondeb mewn cyllid ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch.

5. Gwella ansawdd gwaith

Mae'r drafodaeth ar sgiliau wedi canolbwyntio gormod ar bwyslais i gynyddu nifer sgiliau. Dylai fod mwy o ffocws ar sut y caiff y sgiliau eu defnyddio.

- Rydym angen mwy o ddealltwriaeth o'r mathau o amgylchedd gwaith sy'n annog dysgu ffurfiol ac anffurfiol fel modd o gynyddu perfformiad a chynhyrchiant.
- Dylai fod set cliriach o safonau ar gyfer mesur ymrwymiad cyflogwyr gyda dysgu. Dylai hawliadau am gymorth treth gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant gael eu cysylltu gyda'r safonau hyn.
- Dylid cyhoeddi data ar berfformiad a gwariant hyfforddiant, yn cynnwys ar absenoldeb dysgu, yng nghyfrifon blynyddol cwmnïau a ddyfynnir ar y farchnad stoc.
- Dylid defnyddio gofynion trwydded i ymarfer yn fwy eang i hyrwyddo cynyddu lefel a defnydd sgiliau.
- Dylid defnyddio polisi caffaeliad i gynyddu lefelau hyfforddiant ar hyd y gadwyn gyflenwi.

6. Llunio fframwaith cwricwlwm ar gyfer galluoedd dinasyddion

Dylid creu fframwaith cyffredin o gyfleoedd dysgu, gyda'r nod o wella rheolaeth pobl dros eu bywyd eu hunain.

- Dylid datblygu fframwaith a gytunwyd ar gyfer cwricwlwm dinasyddion, wedi'i lunio i ddechrau o amgylch set o bedwar gallu: digidol, iechyd, ariannol a dinesig, ynghyd â chyflogadwyaeth.
- Dylai fod isafswm cynnig leol ym mhob ardal sy'n gwarantu mynediad i'r cwricwlwm dinasyddion, a gaiff ei ddehongli'n lleol i ateb anghenion amrywiol.

7. Ehangu a chryfhau gallu gweithlu dysgu gydol oes

Dylai cefnogaeth gryfach fod ar gael i bawb sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant, mewn gwahanol ddulliau.

- Dylid cael diffiniad mwy eang o bwy sy'n ffurfio'r gweithlu dysgu gydol oes, yn cynnwys athrawon ysgol ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar, a staff cefnogi dysgu.
- Dylai gwaith cynrychiolwyr dysgu undebau a hyrwyddwyr dysgu cymunedol gael ei hyrwyddo a'i gefnogi ymhellach.
- Dylid dynodi a chefnogi pobl eraill sy'n chwarae neu a fedrai chwarae rolau fel 'cyfryngwyr' dysgu mewn meysydd heb fod yn rhai addysgol megis iechyd, y gwasanaeth prawf neu gyngor defnyddwyr.

8. Adfywio cyfrifoldeb lleol...

Mae'r system bresennol (yn Lloegr) wedi dod yn or-ganoledig heb gysylltiad digonol gydag anghenion lleol a rhanbarthol. Dylem adfer bywyd a grym yn ôl i lefelau lleol.

- Dylai awdurdodau lleol arwain wrth ddatblygu strategaeth dysgu gydol oes ar lefel leol. Dylent ddatblygu'r seilwaith lleol, yn cynnwys cysylltiadau â gwasanaethau heb fod yn rhai addysgol megis iechyd.
- Dylid gweld colegau addysg bellach fel asgwrn cefn sefydliadol dysgu gydol oes lleol, gyda ffocws lleol yn bennaf.
- Dylai strategaethau lleol goleddu sefydliadau diwylliannol – yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, theatrau ac orielau.
- Dylid hyrwyddo rhwydweithiau cyflogwyr lleol, fel rhan o gryfhau diwylliant o ddysgu i mewn ac allan o'r gwaith.
- Dylid datblygu'r syniad o Gyfnewidfeydd Dysgu Lleol i gysylltu pobl fel dysgwyr gyda rhwydwaith cymdeithasol, ac i ddarparu gofodau ar gyfer grwpiau lleol i ymrwymo mewn dysgu.
- Dylai sefydliadau addysg uwch ymrwymo eu hunain i ymuno mewn strategaethau lleol ar gyfer dysgu gydol oes, ac i ledaenu eu gwybodaeth ymchwil i'r gymuned.

9. ... o fewn fframweithiau cenedlaethol

Dylai fod peirianwaith effeithiol ar gyfer creu strategaeth genedlaethol gydlynol ar draws y Deyrnas Unedig, ac o fewn pedair cenedl y Deyrnas Unedig.

- Dylai un adran fod â'r cyfrifoldeb arweiniol dros hyrwyddo dysgu gydol oes gyda thargedau i'r holl lywodraeth ar gyfer dysgu gydol oes.
- Dylid cael astudiaeth gwariant trawsadrannol fel rhan o'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr nesaf, yn dynodi arbedion cost o ymagwedd gydlynol at ddysgu gydol oes.
- Dylid sefydlu corff awdurdodol i oruchwylio a chraffu ar y system genedlaethol o ddysgu gydol oes gyda threfniadau addas yn y gweinyddiaethau datganoledig.

10. Gwneud y system yn ddeallus

Dim ond gyda gwybodaeth a gwerthusiad sy'n gyson, eang a thrwyadl ac sy'n agor trafodeth am y goblygiadau y bydd y system yn ffynnu.

- Dylid cyhoeddi adroddiad *Cyflwr Dysgu* bob tair blynedd, yn rhoi sylw i'r prif dueddiadau a materion, yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan ac a gyflwynir i gyrff rhyngwladol.
- Dylid defnyddio cymharwyr allanol fel mater o drefn, yn cynnwys grŵp meincnod o wledydd, ynghyd ag adolygiad un-tro gan yr OECD o strategaeth dysgu gydol oes y Deyrnas Unedig.
- Rydym angen dadansoddiad cryfach ac ehangach o fanteision a chostau dysgu gydol oes dros gyfnod, ac arbrofi systematig ar yr hyn sy'n gweithio.
- Dylai fod defnydd rheolaidd o adolygiad cymheiriaid ac o arolygiadau, ac o 'leisiau dysgwyr'.

Comisiynwyr yr Ymchwiliad

Mae Comisiynwyr yr Ymchwiliad wedi rhoi'n hael iawn o'u hamser, gan ddatblygu a mireinio cynigion yr Ymchwiliad yn barhaus. Cyfarfu'r Comisiynwyr ddeg gwaith rhwng Medi 2007 a Mehefin 2009, yn cynnwys sesiwn preswyl 24-awr. Roedd nifer o'r Comisiynwyr eu hunain yn awduron papurau thematig neu sectoraidd.

Yr Athro Syr David Watson, Cadeirydd y Comisiwn
Athro Rheolaeth Addysg Uwch, Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain

Yr Athro John Field
Cyfarwyddwr, Adran Arloesedd Academaidd ac Addysg Barhaus, Prifysgol Stirling

Yr Athro Bob Fryer CBE
Cyn Brif Gynghorydd Dysgu, yr Adran Iechyd

Leisha Fullick
Dirprwy Gyfarwyddydd (Llundain), Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain

Dr Helen Gilchrist CBE
Cyn Bennaeth, Coleg Bury

Clare Hannah
Pennaeth Datblygiad Sefydliadol, EWS Railways

Yr Athro Teresa Rees
Dirprwy Is Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

David Sherlock CBE
Cyn Brif Arolygydd yr Arolygiaeth Dysgu Oedolion

Nick Stuart CB
Cadeirydd, Bwrdd Cwmni NIACE

Tom Wilson
Pennaeth Trefniadaeth a Gwasanaethau, TUC

Ysgrifenyddiaeth yr Ymchwiliad

Tom Schuller (Cyfarwyddwr); Fiona Aldridge; Hanya Gordon; Emily Jones; Stephen McNair; Helen Plant; a Jenny Williams.

Gweithredodd Alan Tuckett, Prif Weithredwr NIACE, fel ymgynghorydd drwy gydol yr Ymchwiliad.

Papurau atodol yr Ymchwiliad

Mae holl bapurau atodol yr Ymchwiliad ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Ymchwiliad: www.lifelonglearninginquiry.org.uk.

Thematig

McNair, S. (2009) *Demography and Lifelong Learning: IFLL Thematic Paper 1*.

Mauger, S. (2009) *Technological Change: IFLL Thematic Paper 2*.

McNair, S. (2009) *Migration, Communities and Lifelong Learning: IFLL Thematic Paper 3*.

Field, J. (2009) *Well-being and Happiness: IFLL Thematic Paper 4*.

Schuller, T. (2009) *Crime and Lifelong Learning: IFLL Thematic Paper 5*.

Fullick, L. (2009) *Poverty Reduction and Lifelong Learning: IFLL Thematic Paper 6*.

Williams, J. a Wilson, T. (2009, i'w gyhoeddi) *Work and Learning: IFLL Thematic Paper 7*.

Fryer, B. (2009, i'w gyhoeddi) *Lifelong Learning, Citizenship and Belonging: IFLL Thematic Paper 8*.

Plant, H. a Ward, J. (2009, i'w gyhoeddi) *Lifelong Learning and Sustainable Development: IFLL Thematic Paper 9*.

Cyd-destun

Williams, J., Aldridge, F., a McNair, S. (2009, i'w gyhoeddi) *Lifelong Learning Expenditure, Participation and Funding Models*.

Mountfield, H. (2009, i'w gyhoeddi) *Age Discrimination and Education: A Legal Briefing Paper.*

Sector

Claxton, G. a Lucas, B. (2009) *School as a Foundation for Lifelong Learning: The Implications of a Lifelong Learning Perspective for the Re-imagining of School-age Education: IFLL Sector Paper 1*.

Simpson, L. (2009) *The Private Training Market in the UK: IFLL Sector Paper 2*.

Lochrie, M. (2009) *Lifelong Learning and the Early Years: IFLL Sector Paper 3*.

Brighouse, T. (2009) *A Lifelong Learning Authority: IFLL Sector Paper 4*.

Sandbrook, I. (2009) *A Learning City Perspective: IFLL Sector Paper 5*.

Hodgson, A. a Spours, K. (2009) *Collaborative Local Learning Ecologies: Reflections on the Governance of Lifelong Learning in England: IFLL Sector Paper 6*.

Howard, U. (2009) *FE Colleges in a New Culture of Adult and Lifelong Learning: IFLL Sector Paper 7*.

Watson, D. (2009) *Lifelong Learning and the Future of Higher Education: IFLL Sector Paper 8*.

Lamb, P. a Taylor, C. (2009) *The Impact of Learning as a Family: A Model for the 21st Century: IFLL Sector Paper 9*.

Innocent, N. (2009, i'w gyhoeddi) *How Museums, Libraries and Archives Contribute to Lifelong Learning: IFLL Sector Paper 10*.

Gwerth Cyhoeddus

Sabates, R. (2009) *The Impact of Lifelong Learning on Poverty Reduction: IFLL Public Value Paper 1*.

Matrix Knowledge Group (2009a) *Lifelong Learning and Crime: An Analysis of the Cost-effectiveness of In-prison Educational and Vocational Interventions: IFLL Public Value Paper 2*.

Matrix Knowledge Group (2009b) *Lifelong Learning and Well-being: An Analysis of the Relationship Between Adult Learning and Subjective Well-being: IFLL Public Value Paper 3*.

Bynner, J. (2009) *Lifelong Learning and Crime: A Life-course Perspective: IFLL Public Value Paper 4*.

Jenkins, A. (2009a, i'w gyhoeddi) *Mental Health and Well-being in Older Adults: IFLL Public Value Paper 5*.

Jenkins, A. (2009b, i'w gyhoeddi) *Neighbourhood Skills and Children's Attainment: IFLL Public Value Paper 6*.

Gwaith pellach

Clyne, P. *et al.* (2009, i'w gyhoeddi) *Learning from the Past*.

Gallacher, J. *et al.* (2009, i'w gyhoeddi) *Inquiry into the Future for Lifelong Learning: The Scotland Perspective*.

Mauger, S. (2009) *Horizon Scanning and Scenario Development: The Future of Learning Infrastructures*.

Nolan, P. *et al.* (2009, i'w gyhoeddi) *Inquiry into the Future for Lifelong Learning: The Northern Ireland Perspective*.

Plant, H. (2009, i'w gyhoeddi) *Summary of Learner Consultations*.